**ADRODDIAD BLYNYDDOL (2011/12) CARTREFI CYMUNEDOL GWYNDD (CCG) AR GYFER CYNGOR GWYNEDD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer** | Gwybodaeth a thrafodaeth | | |
| **Dyddiad** | 4 Hydref 2012 | | |
| **Eitem** | | **Papur** | |
| **Awdur** | Ffrancon Williams, Prif Weithredwr | | |
| **Pwrpas** | I gyflwyno adroddiad blynyddol CCG i Cyngor Llawn Cyngor Gwynedd | | |
| **Goblygiadau ariannol** | Ddim yn berthnasol | | |
| **Rheolaeth Risg** | Isel | | |
| **Atodiadau** | Dim | | |

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Nodir yn y Cytundeb Trosglwyddo bod disgwyliad i CCG gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar sut mae'n gweithredu'r addewidion wnaed i denantiaid yn y Ddogfen Gynnig a goblygiadau eraill o fewn y Cytundeb.

1.2 Dyna bwrpas yr adroddiad hwn, ac adrodd ar weithgareddau ail flwyddyn CCG o 1af Ebrill 2011 hyd at 31ain Mawrth 2012.

## 2.0 Sgôp

2.1 Mae sgôp yr adroddiad yn ymdrin â:

1. Cyflawni addewidion y ddogfen gynnig
2. Gwaith buddsoddi Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)
3. Trefniadau ymgynghori â thenantiaid
4. Oblygiadau o dan y Cytundeb (Cytundebau Enwebiadau ac Asiantaethau Tai, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Phrotocol Budd-dal Tai)
5. Protocol Aelodau Etholedig
6. Gweithio mewn partneriaeth ar eitemau tai strategol pwysig
7. Materion gweithredol eraill

Mae mwyafrif o'r uchod yn cael eu trafod mewn manylder yng nghyfarfodydd monitro chwarterol gyda'r Cyngor. O ganlyniad, nid pwrpas yr adroddiad yma fydd ail-adrodd manylder sydd eisoes wedi ei gyflwyno, ond yn hytrach crynhoi llwyddiannau allweddol yn y cyfnod, goleubwyntio meysydd o weithgareddau nad oedd cystal â disgwyliwyd a hysbysu aelodau o'r sialensiau a wynebir yn y flwyddyn i ddod.

## 3.0 Cyflawni addewidion y ddogfen gynnig

3.1 Roedd y Ddogfen Gynnig i denantiaid "Eich Cartref, Eich Dewis" yn cynnwys 170 o addewidion. Ar ddiwedd 31 Mawrth 2012 roedd 102 addewid (60%) wedi eu gwireddu a 49 pellach yn dangos cynnydd tuag at eu gwireddu, gyda'r addewidion sy'n weddill wedi eu cynnwys o fewn Cynlluniau Gwella Gwasanaeth.

3.2 Llwyddiannau allweddol:

1. CCG wedi gallu sicrhau fod y rhaglen gwelliannau SATC yn rhoi cyfle i lafur lleol, ystyriwyd i fod yn ganolog i'r addewidion wnaed
2. Sefydlwyd Panel Addasiadau yn y cyfnod i adolygu anghenion ar sail achosion unigol ac mae'r Panel wedi arwain at leihad yn y rhai sy'n disgwyl gwaith, ac wedi gwella effeithiolrwydd gwasanaeth gan sicrhau fod CCG yn gallu cyflawni'r addewid o gyflymu addasiadau.
3. Mae datblygiad ein Dewislen Cyfranogi wedi cynorthwyo i sicrhau fod tenantiaid a phreswylwyr yn gallu dewis sut i gymryd rhan mewn siapio'r gwasanaethau darparir gennym
4. Bu i holiadur Boddhad Tenantiaid cyntaf CCG wireddu'r addewid wnaed i geisio barn ar sut darparir gwasanaethau. Roedd yr adborth yn galluogi CCG i adnabod lle roedd angen newid mewn darpariaeth gwasanaeth
5. Mae CCG wedi rhoi dadansoddiad i brydleswyr o'r ffioedd tâl gwasanaeth i'w cynorthwyo i dalu swm y gost am y gwasanaeth maent yn ei dderbyn
6. Mae CCG wedi datblygu rhaglen i sefydlu diwylliant atebol yn canolbwyntio ar y cwsmer. Bydd yn cynorthwyo i gyflawni'r addewid o ddarparu gwasanaeth tai sy'n canolbwyntio ar y cwsmer

3.3 Sialensiau yn y flwyddyn i ddod:

Er bod CCG yn ffyddiog bydd yr addewidion sy'n weddill yn cael eu cyflawni, y brif sialens i'r flwyddyn i ddod yw cynnal allbwn y rhaglen buddsoddi SATC i'r lefel sydd ei angen a pharhau i weithredu'r newidiadau adnabuwyd i sefydlu diwylliant atebol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

## 4.0 Gwaith buddsoddi Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)

4.1 Bydd Aelodau yn cofio bod CCG wedi mabwysiadu strategaeth caffael arloesol lle roedd gwaith buddsoddi SATC yn cael ei rannu i ddwy ran; oddeutu 50-60% yn cael ei dendro o dan reolau caffael "OJEU" ac yn debygol o ddenu prif gontractwr i reoli'r gwaith, a 40-50% yn cael ei dendro o dan trefniadau mwy traddodiadol "ddim - OJEU" oedd yn debygol o ddenu mwy o gwmnïau lleol ("SME"). Roedd pob cytundeb yn cynnwys egwyddorion pecyn i2i "Gallu Gwneud" i Dargedu Recriwtio a Hyfforddi i uchafu'r budd o'r buddsoddiad sylweddol mewn tai i'r economi lleol drwy ddarparu swyddi newydd, cyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd i fusnesau lleol wrth gyflawni rhaglen SATC.

Mewn perthynas i'r Tendr OJEU, penodwyd Partneriaeth Lovell fel y Prif Gontractwr ar gyfer y Rhaglen Mewnol ac Allanol oedd yn cyfateb i oddeutu 60% o'r gwaith.

Mewn perthynas i'r 40% SME neu Cytundebau Crefft (fel cyfeiriwyd atynt), penodwyd y 7 Contractwr canlynol: GM Jones, Falconer, Apollo, EWE, Peirianneg Sifil Gelli, Aled Jones a PH Jones.

Llafur yn unig yw'r Cytundebau Crefft, a penodwyd Travis Perkins a Symphony fel partneriaid Cadwyn Cyflenwi CCG.

Rhoddwyd y cytundebau "enillion cyflym" ar gyfer newid drysau/ffenestri a gwaith gwresogi i Nationwide, Eaga a Bramall. Fodd bynnag, daeth cytundeb Eaga a Bramall i ben yn gynnar ym Mawrth a Mehefin 2011, yn ôl eu trefn, oherwydd perfformiad annerbyniol.

4.2 Bu cychwyn Darparwyr Gwasanaeth CCG yn llawn yn ystod y flwyddyn olygu gwaith buddsoddi mwy sylweddol ar y safle yn y cyfnod gyda gwariant cyfalaf o £18.9m o'i gymharu a £5.7M yn y flwyddyn blaenorol. Er bod hyn yn gynnydd o £13m ar wariant y flwyddyn gynt roedd dal yn £7.2m yn fyr na'r hyn raglenwyd a rhoddir fwy o fanylder am y rheswm am y diffyg yma yn rhan 4.6 o'r adroddiad.

4.3 Mae Tabl 1 isod yn cyflwyno Darparwyr Gwasanaeth CCG, y math o waith o fewn eu cytundebau a chynnydd hyd at 31 Mawrth 2012 o dan yr archebion tasg berthnasol. Dylai aelodau nodi bod gwaith yn cael ei roi i Ddarparwyr Gwasanaeth o dan y gontract mewn swp ac o fewn archebion tasg, a bod dyddiad cwblhau ar gyfer yr archebion tasg yn wahanol a ddim o reidrwydd yn cyd-fynd â 31 Mawrth 2012 . Gall archebion tasg pellach cael eu gosod i Ddarparwyr Gwasanaeth os yw eu perfformiad yn foddhaol.

## Tabl 1 : Darparwyr Gwasanaeth CCG

| Pecyn Gwaith y Cytundeb | Contractwr | Eiddo wedi cwblhau | % Archeb Tasg wedi cwblhau (ar 31/3/12) | Datganiad Sefyllfa |
|---|---|---|---|---|
| Ennillion Cyflym Drysau a Ffenestri | Nationwide | 3,047 | 66% | Symud ymlaen yn foddhaol |
| Prif Raglen Fewnol | Lovell | 527 | 85% | Symud ymlaen yn foddhaol. Rhaglen 2012/13 wedi ei sefydlu a rhestr cyfeiriadau wedi ei gyflwyno |
| Prif Raglen Allanol | Lovell | 173 | 64% | Symud ymlaen yn foddhaol. Rhaglen 2012/13 wedi ei sefydlu a rhestr cyfeiriadau wedi ei gyflwyno |
| Gwresogi | Lovell | 657 | 79% | Symud ymlaen yn foddhaol |
| Insiwleiddio tô | Lovell | 2,682 | 84% | Symud ymlaen yn foddhaol |
| Crefft mewnol | G M Jones | 71 | 16% | Gynnar yn y cyfnod cytundeb yn dilyn cychwyn |
| Crefft mewnol | Apollo | 96 | 34% | Materion perfformiad wedi arwain at ddod a threfniadau cytundeb i ben yn gynnar |
| Crefft trydanol | Falconer Electricals | 158 | 29% | Gynnar yn y cyfnod cytundeb yn dilyn cychwyn |
| Crefft gwresogi | PH Jones | 22 | 3% | Gynnar yn y cyfnod cytundeb yn dilyn cychwyn |
| Crefft gwaith tô | Evans Wilson & Evans | 33 | 28% | Gynnar yn y cyfnod cytundeb yn dilyn cychwyn |
| Crefft Ffensio, Waliau a Pafinau | Gelli Civil Engineering | 80 | 74% | Symud ymlaen yn foddhaol. Rhaglen 2012/13 wedi ei sefydlu a rhestr cyfeiriadau wedi ei gyflwyno |
| Cadwyn Cyflenwi Yst Molchi a Deunydd | Travis Perkins | 1,199 | 100% | Symud ymlaen yn foddhaol. Nawr yn cyflenwi ar gyfer rhestr cyfeiriadau 2012/13 |
| Cadwyn Cyflenwi Ceginau | Symphony | 739 | 100% | Symud ymlaen yn foddhaol. Nawr yn cyflenwi ar gyfer rhestr cyfeiriadau 2012/13 |

4.4 Mae Tabl 2 isod yn dangos cydymffurfiaeth CCG â'r SATC yn ôl elfennau ar 31 Mawrth 2012. Mae'r ffigyrau yma yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o'i trefniadau monitro SATC blynyddol. Fel mae rhaglen buddsoddi SATC yn mynd ymlaen, bydd lefel cydymffurfiaeth yn amlwg yn cynyddu.

**Tabl 2 : Cydymffurfiaeth y stoc gyda SATC yn ôl elfen, ar 31 Mawrth 2012**

| | Elfen | Stoc ar 31/03/12 | Stoc yn cydymffurfio'n llawn * yn ôl elfen ar 31/03/12 | Stoc yn cydymffurfio* yn ôl elfen yn amodol ar "methiannau derbyniol" ar 31/03/12 | Stoc Ddim yn cydymffurfio * yn ôl elfen | Canran o gydymffurf -iaeth / cydymffurfiaeth gyda "methiannau derbyniol" ar gyfer yr elfen | Blwyddyn disgwylir cydymffurf-iaeth lawn ar gyfer holl stoc ar gyfer yr elfen |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Toeau ac elfennau yn ymwneud â nhw | 6295 | 3295 | 0 | 3000 | 52% | 2015 |
| 2. | Ffenestri | 6295 | 5287 | 4 | 1004 | 84% | 2012 |
| 3. | Drysau allanol | 6295 | 4737 | 7 | 1551 | 75% | 2012 |
| 4. | Ceginau | 6295 | 1549 | 136 | 4610 | 27% | 2015 |
| 5. | Yst Molchi | 6295 | 1272 | 90 | 4933 | 22% | 2015 |
| 6. | Cyfradd Ynni (SAP≥65) | 6295 | 4408 | 0 | 1887 | 70% | 2015 |
| 7. | Systemau Gwres Canolog | 6295 | 2929 | 194 | 3172 | 50% | 2015 |
| 8. | Systemau Trydanol | 6295 | 2088 | 64 | 4143 | 34% | 2015 |
| 9. | Datguddwyr mwg trydanol | 6295 | 6295 | 0 | 0 | 100% | - |
| 10. | Gerddi a storfa allanol hyd at ac yn cynnwys ffin yr eiddo | 6295 | 3556 | 1 | 2738 | 57% | 2015 |

*=dylai eiddo sy'n cydymffurfio gynnwys unrhyw eiddo lle nid yw elfen benodol o SATC yn berthnasol ac felly ddim wedi ei asesu

4.5 Llwyddiannau allweddol:

1. Mae swyddfa i bwrpas penodol SATC wedi ei agor ym Mharc Menai yn Uned 16, Llys y Fedwen, Parc Menai, Bangor, LL57 4BN. Mae'r timau Gweithredu a Rheoli Ased wedi eu lleoli yma gyda nifer o staff llinell flaen hefyd yn gweithio o îs-swyddfeydd.
2. Mae'r cyfleoedd recriwtio a hyfforddi yn parhau i fod yn lwyddiant, gyda 54 hyfforddai yn gweithio ar draws y cynlluniau yn cynnwys 34 prentis fel ag ar 31 Mawrth 2012.
3. O'r 402 gweithiwr yn gweithio ar Raglen Buddsoddi CCG, mae 330 o Ogledd Cymru gydag oddeutu hanner (192) yn byw yng Ngwynedd, fel ag ar 31 Mawrth 2012.
4. Mae'r broses Cadwyn Cyflenwi nawr yn rhedeg gyda Travis Perkins yn cyflenwi deunydd ar gyfer rhaglen SATC a'r Gweithlu Mewnol ("DLO") gyda Symphony yn parhau i fod y cyflenwr o ddewis ar gyfer ceginau.

5. Mae Travis Perkins wedi agor storfeydd ar gyfer deunydd SATC a'r

Gweithlu Mewnol ar Stad Peblig. Gall staff CCG hefyd rannu'r swyddfeydd hyn fel bo'r angen.

6. Trwy eu rhan yn Fforwm Tenantiaid SATC, mae tenantiaid yn parhau i gymryd rhan llawn ym mhob penderfyniad strategol yn ymwneud â'r rhaglen buddsoddi SATC. Mae'r Fforwm nawr yn canolbwyntio ar graffu perfformiad Darparwyr Gwasanaeth.
7. Mae amserlen cyfathrebu nawr wedi ei sefydlu i sicrhau fod cynllunio holl raglenni gwaith yn dilyn amserlen glir ac yn sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda holl denantiaid yn arwain i fyny, ac yn ystod y gwaith buddsoddi ar eu heiddo.
8. Gwnaed penderfyniad yn ystod y flwyddyn i ddod a holl eiddo gwag (ar wahân i rai an-thraddodiadol) i fyny i safon SATC.

4.6 Pethau na aeth cystal:

1. Cymerodd y broses caffael Cadwyn Cyflenwi llawer hirach na'r disgwyl, oedd yn golygu nad oedd yn bosib i'r Contractwyr Crefft gychwyn fel rhaglenwyd yn wreiddiol
2. Aeth Aled Jones Cyf, un o'r ddau Gontractwr Gwresogi, yn fethdalwr yn ystod Rhagfyr 2011.
3. Daeth trefniant cytundeb Apollo i ben yn gynnar oherwydd problemau perfformiad
4. Cafwyd lefel uwch na'r disgwyl o ddiffyg mynediad a thenantiaid yn gwrthod gwaith
5. Roedd pwynt 2 uchod yn rhoi fwy o bwysau ar y contractwr Gwresogi Crefft oedd ar ôl (PH Jones) arweiniodd at ddod a'u rhaglen nhw i stop a gwnaed anwythiad llawn o holl staff cyn ail gychwyn ei rhaglen.
6. Canlyniad pwynt 1 – 5 uchod oedd bod llai o waith yn cael ei wneud nag oedd wedi ei raglennu, oedd yn golygu diffyg o £7.2m yng ngwariant y rhaglen.
7. Roedd pwynt 3 hefyd yn gosod pwysau ychwanegol ar y Contractwr Crefft gwaith mewnol (GM Jones) arweiniodd at broblemau perfformiad ac adolygiad o'u rhaglen gyfredol.
8. Cafwyd problemau ychwanegol yn ystod y flwyddyn wrth geisio cael nifer uchel o eiddo gyda cheginau bychain i gydymffurfio â SATC. Mae'r eiddo yma yn tarfu'n sylweddol ar y rhaglen, gan eu bod yn cymryd llawer hirach i'w cwblhau. Yn aml, mae'r gwaith yn cynnwys gwaith strwythurol gyda newid defnydd gwagle byw er mwyn ymgymhwyso gegin. Yn amlwg mae fwy o waith cyfathrebu ei angen gyda'r tenant er mwyn cytuno'r dyluniad yn y lle cyntaf ac wedyn tra fod y gwaith yn mynd rhagddo.
9. Mae recriwtio i swyddi allweddol ar ochr Ased a Buddsoddiad wedi bod yn broblem eto er gwaethaf sawl ymdrech i lenwi'r swyddi. Mae nifer o swyddi yn parhau heb eu llenwi, sydd yn golygu pwysau ychwanegol ar staff presennol.
10. Mae amser trosi eiddo gwag er mwyn dod a nhw fyny i SATC wedi bod yn hirach na'r disgwyl am sawl rheswm. Hyn wedi arwain at colled incwm uwch nag oedd wedi ei gyllido.

4.7 Sialensiau yn y flwyddyn i ddod:

1. Gall diffyg recriwtio i swyddi gwag effeithio yn anffafriol ar gyflawni rhaglen gwelliannau SATC.
2. Bydd parhau cychwyn y cytundebau crefft, rheoli'r gadwyn cyflenwi a rampio allbwn holl Ddarparwyr Gwasanaeth i'r lefel sydd ei angen yn her sylweddol.
3. Bydd cyflawni targed gwariant 2012/13 CCG a sicrhau rheolaeth dyn o gontractau i sicrhau eu cyflawni o fewn cyfyngiadau'r cynllun busnes hefyd yn sialens
4. Mi fydd yn her i weithredu Safon Eiddo Gwag ("void") newydd, lle bydd pob cartref, ar wahân i rai sydd wedi eu dynodi yn an-thraddodiadol a Chysgodol, yn cael eu codi i SATC tra eu bod yn wag ac yn disgwyl i'w gosod.

**5.0 Trefniadau ymgynghori â thenantiaid**

5.1 Erbyn diwedd flwyddyn ariannol 2011/12, cwblhawyd blwyddyn gyntaf o weithredu y fframwaith newydd ymgynghori â thenantiaid a phreswylwyr, gyda phob grŵp a fforwm wedi ei sefydlu ac yn cyfarfod yn rheolaidd.

Gwelodd y flwyddyn rôl y fforymau ac aelodau'r fforymau yn cynyddu, fel yr oeddynt yn cymryd fwy o ran mewn gwneud penderfyniadau allweddol a dylanwadu ar ddatblygiad gwasanaethau CCG.

1. **Partneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr** – Bu i aelodau ddarganfod pwysigrwydd eu rôl fel y'prif gorff tenantiaid yn cynyddu wrth iddynt wynebu sialensiau newydd fel rhan o ddatblygu'r rhaglen buddsoddi SATC. Codwyd proffil y Bartneriaeth gyda lansiad logo newydd a'u presenoldeb mewn digwyddiadau tenantiaid fel Diwrnod Hwyl CCG.

2. **Fforymau Tenantiaid** sy'n cynnwys :
   - 2.1 **Fforwm Cyflawni SATC** - aelodau'n parhau i weithio'n agos â CCG ym mhob agwedd o'r rhaglen buddsoddi ac yn monitro perfformiad contractwyr. Mae'r fforwm yn cyfarfod yn fisol ac mae aelodau wedi mynychu ymweliadau safle ac wedi craffu sawl adroddiad a pholisïau
   - 2.2 **Fforwm Gwasanaethau Cwsmer o Safon** – yn edrych ar wasanaethau unigol i sicrhau ffocws ar anghenion cwsmer. Yn ystod y flwyddyn, aelodau wedi craffu polisïau a threfniadau amrywiol cyn iddynt fynd i'r Bwrdd, fel Polisi Cwynion, Polisi Ôl-ddyled Cyn Denantiaid a'r Polisi Safon Eiddo Gwag ("Void")
   - 2.3 **Fforwm Buddsoddi Cymunedol** - yn sicrhau fod gweithgareddau CCG yn gweithio tuag at gyflawni nod o wella cymunedau. Mae'r Fforwm wedi chwarae rhan allweddol yn sefydlu Cronfa Budd Cymunedol CCG ac yn parhau i fonitro ei gynnydd a'i berfformiad.
   - 2.4 **Fforwm Cyfathrebu** – yn edrych ar holl gyfathrebu â thenantiaid yn cynnwys y newyddlen, llythyrau, cynnwys y safle we a thaflenni gwybodaeth. Y Fforwm oedd yn gyfrifol am adolygu ac ail-ddylunio newyddlen tenantiaid ac wedi cyfrannu sawl erthygl i'r dudalen 'llais tenantiaid'
   - 2.5 **Fforwm Cynnal a Chadw** – yn edrych yn benodol ar wasanaeth

cynnal a chadw. Fel yr unig grŵp oedd mewn bodolaeth cyn trosglwyddo stoc tai, mae'r grŵp wedi bod yn gweithio'n galed ar adnabod ac adolygu ei rôl a'i bwrpas er mwyn cyd-fynd â strwythur y fframwaith ymgynghori newydd.

3. **Panel Cwsmer** - nid yw mynychu cyfarfodydd at ddant pawb, felly sefydlwyd y panel hwn i roi cyfle i denantiaid cael dweud eu dweud o'u cartrefi eu hunain, dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy holiaduron byr. Erbyn diwedd Mawrth 2012, roedd 128 o denantiaid wedi ymuno â'r panel cwsmeriaid ac wedi cymryd rhan mewn amryw ymgynghoriad yn cynnwys defnydd cyfryngau cymdeithasol, cyfathrebu â chwsmeriaid, sut i ddarparu cefnogaeth wrth dalu rhent a gwneud defnydd o ddebyd uniongyrchol.

4. **Cymorthfeydd** – mae'n wardeiniaid cymunedol wedi cynnal sawl cymhorthfa i roi cyfle i denantiaid sgwrsio am faterion sy'n eu pryderu.

5. **Cyfranddalwyr** - gwahoddwyd cyfranddalwyr i Gyfarfod Blynyddol CCG ym mis Medi 2011. Mae gan bob tenant yr hawl i ddod yn gyfranddaliwr ac i bleidleisio yn y cyfarfod. Fel ag ar ddiwedd Mawrth 2012, mae gan CCG gyfanswm o 39 o gyfranddalwyr. Gyda datblygiad Dewislen Cyfranogiad mae disgwyl i'r ffigwr yma gynyddu dros y flwyddyn i ddod.

5.2 Llwyddiannau allweddol:

1. **Strategaeth Cyfranogi Tenantiaid Lleol 2012-15** - yn ystod y flwyddyn, datblygwyd Strategaeth Cyfranogi Tenantiaid Lleol (SCTLl) cyntaf CCG drwy Grŵp Llywio SCTLl o denantiaid, preswylwyr, staff ac aelodau bwrdd. Roedd y SCTLl yn asesu cynnydd wnaed ers y SCTLl diwethaf, cynhyrchwyd yn 2009 o dan Cyngor Gwynedd. Mae'r SCTLl diweddaraf yn gosod cynllun gweithredu a llwybr clir ar gyfer cyfeiriad cyfranogiad tenantiaid yn CCG ar gyfer y tair blynedd nesaf.

2. **Hyfforddiant** - mynychodd aelodau'r Fforwm Cynhadledd Flynyddol TPAS yn Nhachwedd 2011 ac maent wedi cymryd rhan mewn amryw weithdai hyfforddi, er enghraifft sut i sicrhau effeithiolrwydd cyfarfodydd. Mae'n fforymau tenantiaid a phreswylwyr wedi cymryd rhan mewn asesiad anghenion hyfforddiant a drefnwyd drwy TPAS Cymru i adnabod unrhyw anghenion hyfforddiant a chyfleon datblygu. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at ddatblygu rhaglen hyfforddiant parhaol fydd yn galluogi staff a thenantiaid i gyflawni eu dyletswyddau fel aelodau fforwm i'w llawn potensial.

3. **Ymweld lleoliadau newydd** - cynhaliwyd cyfarfodydd y Bartneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr a'r Fforymau mewn lleoliadau amrywiol ar draws Gwynedd, mewn ardaloedd gwledig a threfol. Golygai hyn bod cymryd rhan yn haws i denantiaid ar draws Wynedd. Lleoliadau wedi cynnwys Bangor, Caernarfon, Pwllheli, Porthmadog, Penrhyndeudraeth a Dolgellau.

4. **Cymdeithasau Tenantiaid ac Aelodau Newydd** – bu i 8 aelod newydd ymuno â'r Bartneriaeth a fforymau a sefydlwyd 4 Cymdeithas Tenantiaid newydd, yn sicrhau cyfranogiad ar lefel lleol.

5. **Datblygu cyfranogiad anffurfiol** - yn ystod y flwyddyn, adnabuwyd pwysigrwydd defnyddio dulliau mwy anffurfiol o gyfranogi er mwyn cyrraedd ac ymgynghori â thenantiaid na fyddai fel arfer yn cymryd rhan mewn dulliau traddodiadol o gyfranogi. Mynychodd y Tîm Cyswllt Cymunedol digwyddiadau fel Miri Morfa a Charnifal Tregarth a Deiniolen, a chynnal Diwrnod Hwyl yr Ŵyl ym Mhwllheli.

6. **Cyswllt Cymunedol** - mae CCG wedi gweithio gydag amryw bartner i gyflawni prosiectau oedd yn cynnwys cynhwysiad digidol a sesiynau cyngor ac ymwybyddiaeth ynni.

7. **Etholiad Aelod y Bwrdd** - gwelwyd 1600 o denantiaid yn pleidleisio yn ail etholiad am aelod tenant o'r bwrdd, cynnydd ar yr etholiad blaenorol lle bu 1200 o denantiaid yn pleidleisio. Roedd y Bwrdd tu hwnt o falch gyda'r lefel o ddiddordeb tenantiaid ac yn credu ei fod yn adlewyrchiad o fuddsoddiad CCG yng ngweithgareddau cyfranogiad tenantiaid.

5.3 Pethau na aeth cystal

1. Fe gafodd aelod o fforwm ei ddiswyddo o'u rôl am dorri cyfrinachedd. Dysgwyd gwersi ac o ganlyniad datblygwyd côd ymddygiad a threfn disgyblu.
2. Fe wynebwyd cyfnod heriol iawn gan aelodau yn ystod cyfnod lle nid oedd tenantiaid yn hapus hefo gwaith Rhaglen Gwella SATC. Mewn ymateb i'r cwynion derbyniwyd am safon y gwasanaeth, sefydlwyd tudalen 'Facebook' gan denantiaid, ac mae rhai tenantiaid, oedd ddim yn hapus, nawr wedi dod yn aelodau cyfranogi i'n cynorthwyo i wneud newidiadau i sicrhau na fydd y problemau hyn yn digwydd eto.
3. Mae wedi bod yn anodd i'r Bwrdd recriwtio aelod annibynnol i'r Bwrdd, gyda un sêt yn parhau yn wag ar ddiwedd Mawrth 2012 er gwaethaf cynnal dau broses recriwtio.

5.4 Sialensiau yn y flwyddyn i ddod:

Rhain yn cynnwys cysylltu gyda grwpiau anodd eu cyrraedd a chynnal diddordeb ac ymglymiad ein haelodau cyfredol. Mae CCG yn y broses o gynnal ymgyrch am aelodau newydd ac yn edrych at ddulliau gwahanol i ddenu tenantiaid a phreswylwyr i gysylltu â ni. Yn hyn o beth bydd sicrhau bod CCG yn cyflawni'r gweithrediadau wnaed o fewn y Strategaeth Cyfranogi Tenantiaid Lleol yn bwysig iawn, un o'r sialensiau fydd prif ffrydio cyfranogiad tenantiaid ar draws CCG.

## 6.0 Oblygiadau o dan y Cytundeb (Cytundebau Enwebiadau ac Asiantaeth Tai, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Phrotocol Budd-dal Tai)

6.1 Cytundeb Enwebiadau ac Asiantaeth Tai

6.1.1 O dan y Cytundeb, mae gan y Cyngor hawl i enwebu 75% o'r Gofrestr Tai (gweler isod) am unrhyw eiddo addas sy'n dod ar gael gan CCG i osod. Roedd CCG hefyd yn darparu Gwasanaeth Cofrestr Tai i'r Cyngor am ffi blynyddol, er dylai aelodau nodi bydd y gwasanaeth yma yn dod i ben pan fydd y Gofrestr Tai Cyffredinol a'r Tîm Opsiynau Tai yn sefydlu ym mis Medi 2012. Roedd y gwasanaeth yn cynnwys:

1. Cynnal a chadw Cofrestr Tai y Cyngor ac ymgymryd y rôl o Swyddog Gosod fel diffinnir ym Mholisi Gosod y Cyngor
2. Cyhoeddi, a gwneud ar gael, ffurflenni cais a thaflenni gwybodaeth
3. Darparu cyngor manwl ar y Gofrestr Tai a gwneud cyfeiriadau addas i asiantaethau eraill
4. Delio ag ymholiadau cyffredinol a phenodol gan Ymgeiswyr y Gofrestr neu ddarpar ymgeiswyr
5. Prosesu a phwyntio ceisiadau a cynnal adolygiad blynyddol o fanylion ymgeiswyr
6. Enwebu ymgeiswyr o'r Gofrestr Tai am eiddo CCG yn unol â'r cytundeb enwebu (75%)
7. Rheoli enwebiadau eraill y Cyngor (e.e. gyda Chymdeithasau Tai eraill)

Mae'r Cytundeb Enwebu a'r Cytundeb Asiantaeth Tai yn cael eu trafod ym mhob cyfarfod chwarterol â'r Cyngor

6.1.2 Roedd y raddfa gyflawn enwebiadau ar gyfer 2011/12 o 73.4% mymryn yn llai na'r targed o 75% i enwebu pobl o'r Gofrestr Tai (gweler isod) ar gyfer holl eiddo addas CCG ddaeth ar gael ar gyfer gosod yn y cyfnod. Hefyd roedd CCG yn parhau i ddarparu Gwasanaethau Cofrestr Tai ar gyfer y Cyngor am y ffi blynyddol gytunwyd. Bydd y gwasanaeth yma yn dod i ben pan fydd y Gofrestr Tai Cyffredin a'r Tîm Opsiwn Tai yn sefydlu ym mis Medi 2012.
Mae CCG yn darparu gwybodaeth perfformiad chwarterol mewn perthynas i enwebiadau a gweithgareddau'r Cytundeb Asiantaeth Tai o flaen y cyfarfod adolygu chwarterol gyda'r Cyngor, fel cytunwyd.

| | **Enwebiadau** | **Gosodiadau** | **Cyfanswm** | **% Enwebiadau** |
|---|---|---|---|---|
| **Ebr-11** | 20 | 6 | 26 | **77** |
| **Mai-11** | 20 | 9 | 29 | **70** |
| **Meh-11** | 23 | 10 | 33 | **70** |
| **Gorff-11** | 29 | 7 | 36 | **81** |
| **Awst-11** | 26 | 10 | 36 | **72** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Medi-11** | 11 | 6 | 17 | **65** |
| | | | | |
| | **Enwebiadau** | **Gosodiadau** | **Cyfanswm** | **% Enwebiadau** |
| **Hyd-11** | 17 | 7 | 24 | **71** |
| **Tach-11** | 31 | 13 | 44 | **70** |
| **Rhag-11** | 12 | 2 | 14 | **86** |
| **Ion-12** | 18 | 6 | 24 | **75** |
| **Chwe-12** | 13 | 5 | 18 | **72** |
| **Maw-12** | 12 | 3 | 15 | **80** |
| **CYFANSWM** | **232** | **84** | **316** | **73.4** |

6.1.3 Llwyddiannau allweddol

1. Perthynas gwaith da wedi ei gynnal gyda thîm Digartrefedd (a staff Tai eraill) y Cyngor ac mae CCG wedi gweithio â hwy ar eu proses "System Thinking".
2. Mae perthynas gwaith da yn parhau gyda'r Cymdeithasau Tai eraill.

6.1.4 Pethau na aeth cystal:

1. Mae gweithredu'r Gofrestr Tai Cyffredin a Thîm Opsiynau Tai wedi cymryd hirach na'r disgwyl, ond cafodd y dyddiad gweithredu diwygiedig o Fedi 2012 ei gytuno ar y cyd rhwng y Cyngor a holl Gymdeithasau Tai fydda'n rhan ohono (yn cynnwys CCG), hyn er mwyn sicrhau llwyddiant y newid strategol pwysig yma.

6.1.5 Sialensiau yn y flwyddyn i ddod:

Y brif sialens yn y flwyddyn i ddod fydd cyflwyniad a gweithrediad esmwyth a llwyddiannus y Gofrestr Tai Cyffredin a'r Polisi Gosod Cyffredin. Yn enwedig sicrhau fod ymgeiswyr yn deall y broses newydd, ac yn sicrhau fod pob partner yn gweithio'n gyson.

6.2 <u>Cytundebau Lefel Gwasanaeth</u>

Ar bwynt trosglwyddo (12/04/10) cytunwyd y Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG) canlynol rhwng CCG a'r Cyngor. Mae cyfnod y CLG wedi ei nodi yn y cromfachau.

1. Gwasanaethau Cynnal a Chadw Tir (2 flynedd)
2. Cefnogaeth TGCh (darpariaeth a chefnogaeth Rhwydwaith Ardal Eang a Chefnogaeth Rhaglen – "Geographical Information System" (GIS) (3 mlynedd)
3. Gwasanaethau Cyfreithiol (2 flynedd)
4. Gwasanaethau Rheoli Pla (3 mlynedd)
5. Gwasanaethau Cyflogau (3 mlynedd)

6. Gwasanaeth Archwiliadau Diogelwch Priffyrdd ar Ffyrdd heb eu mabwysiadu (3 mlynedd)

7. Gwasanaeth Cynnal Fflyd (2 flynedd)
8. Gwasanaethau Archwiliadau Iechyd Amgylchedd (3 mlynedd)
9. Gwasanaethau Draeniau (2 flynedd)
10. Gwasanaethau Glanhau (2 flynedd)
11. Gwasanaeth Systemau Teledu Cylch Cyfyng – “CCTV” (2 flynedd)
12. Gwasanaethau Goleuadau Stryd (3 mlynedd)

6.2.1 Llwyddiannau allweddol:

1. Mae’r Gwasanaeth Cyfreithiol ddarparir i Wasanaeth Rheolaeth Tai CCG yn parhau i fod o safon uchel er bod gostyngiad bychain yn y gwasanaeth yn sgil salwch staff. Cafodd hyn ei ddatrys drwy benodi rhywun addas i ddarparu’r gwasanaeth.
2. Oherwydd newid mewn deddfwriaeth mae trosglwyddo cyfrifoldeb am Garthffosiaeth a Draeniau i Dŵr Cymru wedi ei wireddu heb unrhyw broblemau sylweddol gan y Cyngor a CCG.

6.2.2 Pethau na aeth cystal:

1. Mae gan CCG reswm i beidio bod yn hapus gyda safon y gwasanaeth a dderbyniwyd trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth y gwasanaeth glanhau. Mae hyn wedi ei adrodd yn rheolaidd i’r Cyngor ond mae’r broblem yn parhau heb ei ddatrys.
2. Roedd un ‘outage’ difrifol i Rwydwaith Ardal Eang (WAN) CCG yn y cyfnod ac fe achoswyd aflonyddwch i’r gwasanaethau. Ymatebwyd iddo gan Logicalis. Mae CLG TGCh yn nodi dylai cyfarfodydd cyfrif rheolaidd gymryd lle rhwng y Cyngor a CCG, ond nid yw hyn wedi digwydd.

6.2.3 Sialensiau yn y flwyddyn i ddod:

Ymestynwyd Cytundebau Lefel Gwasanaeth oedd hefo cyfnod o 2 flynedd am 12 mis pellach. Y brif sialens i CCG yn y flwyddyn i ddod yw adolygu’r holl Gytundebau Lefel Gwasanaeth a restrir uchod, a lle’n addas, adnodd i’r ymarfer ail-dendro a gweithredu unrhyw newidiadau erbyn Ebrill 2013.

Mewn perthynas i’r Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cyfreithiol yn enwedig, mi fydd CCG angen adolygu trefniadau ar gyfer digwyddiadau lle mae Tîm Cyfreithiol y Cyngor wedi datgan gwrthdaro diddordeb ac wedi methu cynrychioli CCG.

6.3 <u>Protocol Budd-dal Tai</u>

Mae derbyn taliad esmwyth a phrydlon o Fudd-dal Tai yn hanfodol i lif ariannol CCG ac mae’r Protocol Budd-dal Tai yn gosod ymrwymiad i’r Cyngor ac i CCG weithio gyda’i gilydd i gyflawni lefel a safonau gwasanaeth ar gyfer prosesu a gweinyddu budd-dal tai i denantiaid CCG.

6.3.1 Llwyddiannau allweddol

1. Mae systemau mewn lle i sicrhau fod prif ffeil taliadau Budd-dal Tai yn cael ei lwytho i fyny yn effeithiol ar amser pob pedair wythnos. Mae'r ffeiliau data wedi bod yn cael eu trosglwyddo ar y penwythnos cyn diwedd y cyfnod pedair wythnos sy'n sicrhau bod balansau y cyfrif rhent yn gywir, ac mae'n cynorthwyo yn y broses cyfrifo.
2. Mae unrhyw ymholiad neu anghysondeb 'ad-hoc' yn derbyn ymateb prydlon
3. Perthynas gweithio da yn parhau rhwng staff CCG a'r Cyngor sy'n rhan o brosesu Budd-dal Tai, yn ogystal â'r timau Cyllid a TG.

6.3.2 Pethau na aeth cystal:

1. Mae'n deg i ddweud ers y problemau cychwynnol gyda ffeiliau data yn gynnar ar ôl trosglwyddo, bod digwyddiadau tebyg wedi bod yn brin. Er hynny, un problem ddaru godi oedd lle bu i ddata Budd-dal Tai gael ei lawr lwytho ddwywaith, oedd yn golygu balansau cyfrifon rhent anghywir. Datryswyd y mater gan y tîm TG gyda chefnogaeth Capita.

6.3.3 Sialensiau yn y flwyddyn i ddod:

1. Y brif sialens yn y flwyddyn i ddod yw parhau i gadw perthynas waith da gydag Adran Refeniw Cyngor Gwynedd ac i gysylltu a rhannu gwybodaeth â hwy i ymateb i'r newidiadau Budd-dal Tai sydd i ddod, mewn cyswllt â mesuriadau Diwygio Lles y Llywodraeth. Mae'n bwysig i sicrhau perthynas waith agos er mwyn rhagweld ac ymateb i unrhyw broblemau all godi o'r newidiadau Diwygio Lles oherwydd y risg uchel o leihad posib yn incwm CCG oherwydd y newidiadau.

## 7.0 Protocol Aelodau Etholedig

7.1 Bydd Aelodau yn ymwybodol o brotocol aelodau etholedig, cyflwynwyd ar bwynt trosglwyddo, i gael un pwynt cyswllt o fewn CCG ar gyfer aelodau. Mae pob cais gan aelod (ar wahân i rai o natur cynnal a chadw dydd i ddydd) yn cael eu cofnodi, eu gweithredu a'u monitro o fewn CCG gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth gwell a mwy ymatebol i aelodau. Er yn newid mawr ar y pryd, erbyn hyn mae'r system wedi ei dderbyn ac wedi "setlo i lawr".

7.2 Llwyddiannau allweddol

1. Mae CCG yn parhau i gofnodi, gweithredu a monitro holl geisiadau a gwybodaeth a dderbynnir gan aelodau. Mae'r drefn yn darparu gwybodaeth rheoli gwerthfawr sy'n galluogi CCG i asesu lefel cyfredol o berfformiad ac i adnabod meysydd ar gyfer gwella
2. Mae adnoddau ychwanegol wedi eu darparu i sicrhau rheolaeth effeithiol o'r protocol aelodau.

7.3 Pethau na aeth cystal:

1. Adnabuwyd fod y protocol aelodau yn cael ei reoli yn effeithiol yn nhermau delio gydag ymholiadau a darparu adborth. Fodd bynnag mae wedi profi i fod yn fwy o her i ddilyn fyny ar pob ymholiad i sicrhau fod addewidion a threfniadau yn cael eu cadw atynt. Bydd yr adnodd nodir uchod yn sicrhau

fod holl ymholiadau yn cael eu dilyn fyny o fewn amser estynedig a bod aelodau etholedig yn derbyn diweddariad ar unrhyw gynnydd neu newid.

7.4 Sialensiau yn y flwyddyn i ddod:

I barhau i gyflawni disgwyliadau'r protocol aelodau, y brif sialens nawr i CCG yw sefydlu diwylliant galluogi, atebol gyda ffocws ar y cwsmer.

**8.0 Gweithio mewn partneriaeth ar eitemau tai strategol pwysig**

Mae CCG yn aelod gweithgar o Bartneriaeth Tai Gwynedd ac wedi cymryd rhan mewn amryw faterion tai strategol pwysig, fel

1. **Gweithredu Cofrestr Tai Cyffredin, Polisi Gosod Cyffredin a'r Tîm Opsiynnau Tai** - mae CCG wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Cyngor a Chymdeithasau Tai eraill i gynllunio a pharatoi am gyflwyniad o'r newid strategol sylweddol yma sydd wedi ei raglennu i gychwyn ym mis Medi 2012.

2. **Digartrefedd** - wedi parhau i ddarparu nifer o eiddo ar gyfer defnydd y Cyngor i gartrefu ymgeiswyr digartref ar sail dros dro i gynorthwyo gofynion statudol y Cyngor.

3. **Cyflogaeth leol** - ers trosglwyddo, pan ddaru 170 aelod o staff trosglwyddo o'r Cyngor o dan "TUPE", mae CCG wedi cynyddu nifer o staff a gyflogir ymhellach ac, ar 31 Mawrth 2012, yn cyflogi cyfanswm o 267 o staff. Rhagwelir y bydd y nifer yn cynyddu eto dros y flwyddyn nesaf wrth i'r rhaglen fuddsoddi gyrraedd ei frig. Hefyd, mae sawl cyfle cyflogaeth leol eraill wedi eu sicrhau drwy Ddarparwyr Gwasanaeth SATC (gweler uchod).

4. **Darpariaeth tai fforddiadwy** – mae CCG wedi adnabod nifer o safleoedd datblygu posib ac wedi cyflwyno dau safle datblygu penodol ar gyfer eu cynnwys o fewn Rhaglen Cynllun Datblygu 2011-2014 y Cyngor. Rhain yn Y Wern, Felinheli ac yn Wenallt, Dolgellau. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd rhain wrth gefn oherwydd ail-flaenoriaethu Cynllun Datblygu Rhaglen 2011-2014 yn dilyn penderfyniadau strategol wnaed gan y Cyngor.
   Mae CCG mewn trafodaethau cynnar gyda'r Cyngor ynglŷn â safleoedd datblygu posib eraill.

5. **Strategaeth Pobl Hyn** –
   i) CCG wedi cwblhau adolygiad ar rhan o'i stoc tai cysgodol oedd yn anodd eu gosod ac wedi cyflwyno nifer o argymhellion i'r Bwrdd. Mae penseiri nawr wedi eu comisiynu i ddatblygu cynlluniau penodol i gynnwys blaenoriaethu dewisiadau adnabuwyd yn gynnar yn yr ymarfer ymgynghori.
   ii) Yn dilyn prosiect peilot llwyddiannus yn ardal Bethesda, bu i Bwrdd CCG cymeradwyo mabwysiadu model diwygiedig ar gyfer darparu gwasanaeth warden cysgodol i stad Maes y Garnedd ym Methesda a

cytunwyd i ystyried cyfleoedd i moderneiddio'r gwasanaeth ar stadau eraill, fel yn berthnasol.

iii) CCG wrthi'n datblygu Polisi Addasiadau i ddarparu gwasanaeth addasiadau effeithiol fydd yn cyfarfod anghenion tymor hir ein tenantiaid yn well ac yn galluogi nhw i barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi mor hir â phosib.

Bu gweithio agos gydag adrannau perthnasol o'r Cyngor ar y mentrau yma.

## 9.0 Materion gweithredol eraill

### 9.1 Cefnogi Pobl

Yn ystod 2011/12 bu i CCG weithio'n agos gyda thîm Cefnogi Pobl y Cyngor i ddarparu'r dystiolaeth oedd ei angen i sicrhau fod y Cyngor yn fodlon gyda gwasanaeth Cefnogi Pobl CCG. Mae'r gwaith yma, ynghyd a gwaith i ddatblygu'r gwasanaeth, wedi dileu'r risg o'r Cyngor argymell 'claw back' o rhan o'r taliad grant. Bu i CCG hefyd weithio hefo'r Cyngor i newid a gwella'r gwasanaeth mewn ymateb i Ganllawiau Grant Rhaglen Cefnogi Pobl (Cymru). Fe ddaru CCG ddarparu ymateb cynhwysfawr i bapur ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y canllawiau newydd.

Mi fydd 2012/13 yn cychwyn cyfnod heriol o newid i wasanaeth Cefnogi Pobl CCG. Bydd Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol yn cael ei sefydlu i Ogledd Cymru fydd yn penderfynu blaenoriaethau ar gyfer comisiynu gwasanaethau Cefnogi Pobl. Bydd arian y grant yn cael ei ailddosbarthu drwy Gymru gyfan a rhagwelir lleihad posib o 5% blwyddyn ar flwyddyn o'r arian ddyrannir i Wynedd. Mae'r moderneiddio cynllunnir ar gyfer gwasanaeth Wardeniaid Cysgodol yn allweddol i warchod y grant gan fydd pwyslais yn cael ei roi ar gefnogi anghenion ein tenantiaid, ddim, fel mae ar hyn o bryd, lle maen nhw'n byw.

### 9.2 Polisi newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhent Tai Cymdeithasol

Bydd aelodau yn cofio o adroddiad blynyddol llynedd bod CCG wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar gynigion Llywodraeth Cymru am bolisi newydd ar gyfer rent cymdeithasol yng Nghymru. Bwriad y polisi oedd cyflwyno strwythur rhent cymdeithasol cenedlaethol newydd wedi ei selio ar feini prawf tryloyw ac ar sail tystiolaeth fyddai'n cysoni rhenti rhwng Awdurdodau Lleol a darparwyr Cymdeithasau Tai ac yn gwneud hynny o fewn yr amlen rhent cymdeithasol cyfredol tra'n gwarchod tenantiaid o gynnydd rent eithafol o ganlyniad i'r polisi. Roedd CCG wedi dod i'r canlyniad pe byddai'r polisi wedi ei gyflwyno yn Ebrill 2012, fel y bwriedir, y byddai'n cael effaith niweidiol ar incwm CCG.

Yn ffodus, ni chafodd y polisi ei weithredu yn Ebrill 2012.

Cylchredwyd polisi drafft diwygiedig ym Mai 2012, a bydd manylion y polisi hwnnw yn debygol o gael ei adrodd arno yn adroddiad blynyddol flwyddyn nesaf.

9.3 **Casgliad Rhent/Rheoli Incwm**

Yn dilyn newidiadau i'r Tîm Rheoli Incwm o ganlyniad i adolygiad annibynnol, mae perfformiad wedi gwella yn sylweddol gyda lleihad yn ôl-ddyledion tenantiaid cyfredol a chynnydd yn yr incwm a gasglwyd. Bu gostyngiad yng nghyfanswm ôl-ddyledion o £90,023.61 yn ystod y flwyddyn ariannol, sef o 2.18% i 1.83% o'r rhent gros gellir ei gasglu.

Mae CCG yn paratoi ar gyfer yr effaith ariannol a ragwelir o ganlyniad i Fesurau Lles y Llywodraeth a newidiadau i system Budd-dal Tai. Bydd CCG yn cynnal ymarferiad proffilio tenantiaid er mwyn ceisio amcan o'r effaith ariannol posib a ragwelir yn sgil y newidiadau a chynllunio i gyflawni gwasanaethau i leihau'r effaith ar CCG ac ein tenantiaid. Ar hyn o bryd mae CCG yn datblygu Strategaeth Cynhwysiad Ariannol a Chynllun Gweithredu fydd yn gosod allan cynllun newid lefel uchel ar gyfer y cwmni i sicrhau bod cynhwysiad ariannol yn dod yn rhan integrol o bopeth rydym yn ei wneud. Gan fod cyswllt uniongyrchol rhwng gallu ein cwsmeriaid i reoli eu harian a'u gallu i dalu eu rhent ac i gynnal eu tenantiaeth, bydd y cynllun gweithredu yn amlinellu'r camau bydd CCG yn bwriadu eu cymryd dros y pedair blynedd nesaf i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn gallu cynyddu eu cynhwysiad ariannol.

9.4 **Eiddo gwag ("void")**

Yn ystod y flwyddyn fe ddaru CCG benderfynu dod ag eiddo gwag (ar wahân i rai an-thraddodiadol ac eiddo cysgodol) i fyny i Safon Ansawdd Cymru. Er gwaethaf effaith tymor byr anffafriol ar amser trosi'r eiddo, ystyriwyd y penderfyniad i symud ymlaen i fod yn un bwysig yn nhermau safon uwch a chyflwr yr eiddo oedd yn cael ei roi drosodd i'n tenantiaid newydd.
Roedd cyfuniad o ffactorau yn effeithio ar berfformiad gwaeth na'r disgwyl ar y dangosydd perfformiad allweddol yma (amser cyfartalog trosi eiddo) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae CCG yn deall y bydd hyn hefyd yn cael peth effaith ar wariant y Cyngor ar llety dros dro i'r digartref. Bydd hwn yn flaenoriaeth uchel i CCG ddatrys yn ystod Blwyddyn Ariannol 2012/13.

9.5 **Adolygiad y gweithlu mewnol ("DLO")**

Mae CCG wedi comisiynu adolygiad o'r gwasanaeth Cynnal a Chadw yn ei gyfanrwydd. Yn dilyn proses tendro, mi fydd Northgate Public Service Solutions yn cwblhau'r adolygiad. Prif fwriad yr adolygiad yw darparu Gwasanaeth Trwsio modern i'n tenantiaid sy'n cyfarfod eu hanghenion ac yn gwella profiad y cwsmer.

9.6 **Adolygiad Iechyd a Diogelwch**

Mae Ymgynghorwyr EC Harris yn cynnal adolygiad Iechyd a Diogelwch gwraidd a changen ("root and branch") o'r sefydliad i gyd ar ran CCG. Nod yr adolygiad yw sicrhau fod trefniadau a pholisïau Iechyd a Diogelwch CCG yn ffit i bwrpas ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth er mwyn darparu amgylchedd gwaith diogel ar gyfer holl weithwyr a thenantiaid.

## 9.7 Rheoleiddio

Fel pob Cymdeithas Tai arall yng Nghymru, mae CCG yn ymateb i anghenion a osodir allan yn y Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai Cofrestredig yng Nghymru. Mae'r proses asesu amlinellir yn y fframwaith wedi'i selio ar ddull o reoleiddio ar sail risg gan geisio adnabod cryfderau a meysydd gwella wrth gyfarfod deg "Canlyniadau Cyflawni" (safonau perfformiad), sydd â ffocws ar allbynnau i denantiaid a defnyddwyr gwasanaeth.

Yn ystod y cyfnod, bu i CCG rannu ei Hunan Asesiad (HA) gyda Llywodraeth Cymru. Roedd y ddogfen yn cymryd golwg gwrthrychol ar wasanaethau a pherfformiad CCG yn erbyn y "Canlyniadau Cyflawni". Tra bod hwn yn broses barhaus ac sy'n cael ei ddiweddaru yn gyson, mae'r HA yn cael ei ddefnyddio i ddiweddaru prosesau a blaenoriaethau cynllunio busnes CCG. Mae hefyd yn cael ei rannu yn rheolaidd gyda'r Rheoleiddwr sy'n defnyddio ei gynnwys fel dangosydd o berfformiad CCG yn erbyn anghenion y fframwaith rheoleiddio. Mae Asesiad Rheoleiddio Cymdeithas Tai (yr "HARA") ffurfiol CCG wedi ei raglennu ar gyfer 2012/13 fydd yn cynnwys asesiad gwirio ar ac oddi ar y safle gan y Rheoleiddwr fydd yn arwain at farn ffurfiol fydd yn cael ei gyhoeddi ynglŷn â sut mae CCG yn perfformio yn erbyn y "Canlyniadau Cyflawni" mewn perthynas i:

- Gwasanaethau landlord
- Trefn Llywodraethol a rheolaeth Ariannol

Gwnaed asesiad o hyfywdra ariannol CCG gan y Rheoleiddwr yn gynnar yn 2012. Bu hyn arwain at gyhoeddiad y Dyfarniad Hyfywdra Ariannol canlynol ar 31 Mawrth 2012:

**"Llwyddo gyda monitro rheoleiddio agosach"**

Mae'r "monitro rheoleiddio agosach" oherwydd y lefel uchel o fuddsoddiad yn y rhagolwg 30 mlynedd i gyfarfod SATC oherwydd safon y stoc a fabwysiadwyd, a'r amlygiad ariannol uwch pe byddai cynnydd yn y gost o gyflawni'r rhaglen fuddsoddi yn troi allan i fod yn uwch na'r rhagdybiaethau. Hefyd oherwydd llithriad yn y rhaglen fuddsoddi ers sefydlu CCG yn 2010 ac y gallai unrhyw lithriad pellach cael effaith anffafriol ar y cynllun busnes.

## 9.8 Rheoli Perfformiad

Fel rhan o ddymuniad CCG i sefydlu diwylliant galluogi, atebol gyda ffocws ar y cwsmer, mae CCG wedi buddsoddi mewn meddalwedd rheoli perfformiad, Covalent. Fe'i brynwyd ac fe'i gomisiynwyd yn y cyfnod ac mae'n darparu sylfaen cadarn i reoli perfformiad ar lefel corfforaethol gan gysylltu nodau ac amcanion o fewn y Cynllun Corfforaethol, Cynlluniau Gwella Gwasanaeth unigol a Risgiau ayb. Mi fydd y linciau hyn yn cael eu datblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf i unioni amcanion aelodau unigol o staff gyda'u targedau perfformiad.

## 10.0 Casgliad

Mae ail flwyddyn CCG o weithredu wedi gweld cynnydd sylweddol yng ngwaith buddsoddi SATC ar y safle. Mae gwariant SATC wedi cynyddu o £5.7m yn ein blwyddyn gyntaf o weithredu i £18.9m yn y cyfnod. Mae'n bleser hefyd gweld nifer uchel o bobl yn gyflogedig gan Ddarparwyr Gwasanaeth SATC CCG sydd unai'n byw yng Ngwynedd neu'n byw o fewn y dalgylch a'r nifer uchel o hyfforddai sydd hefyd wedi'u cyflogi yn cyflawni un o amcanion craidd y model caffael arloesol sydd wedi ei fabwysiadu. Fodd bynnag, roedd y gwariant yn llai na'r rhagolwg ar gyfer y flwyddyn, o ryw £7.2m o ganlyniad i i) gorfod dod a threfniadau cytundeb i ben yn gynnar i ddau gontractwr, Bramall ac Apollo, oherwydd problemau perfformiad a rhannu'r effaith ymysg gweddill y Darparwyr Gwasanaeth, ii) gorfod ymdopi â cholled Aled Jones Cyf., un o'n contractwyr gwresogi aeth yn fethdalwr ym mis Rhagfyr 2011, a iii) bod y broses caffael y Cadwyn Cyflenwi wedi cymryd llawer hirach na ragwelwyd oedd yn golygu nad oedd ein Contractwyr Crefft yn gallu cychwyn yn ôl y rhaglen. Hefyd ni ddaru cychwyn rhai o'r Contractwyr Crefft mynd cystal â gobeithiwyd gyda rhai tenantiaid yn profi lefel annerbyniol o wasanaeth gan CCG, mwyaf amlwg yn ardal Dyffryn Nantlle cyn Nadolig 2011. Bu hyn hefyd arwain at ddefnydd o rhwydweithiau cymdeithasol (Facebook) gan denantiaid am y tro gyntaf fel ffordd o wyntyllu eu hanfodlonrwydd. Bu i cyflymder y math yma o gyfathrebu gyflwyno her benodol i CCG ar y pryd, ond fe lwyddwyd i'w goresgyn yn gyflym er budd CCG a'i denantiaid. Mae CCG nawr yn cyfathrebu gyda mwy o denantiaid trwy'r cyfrwng newydd yma nag o'r blaen ac wrth wneud, yn cysylltu â nifer fwy o denantiaid na fyddem fel arall wedi'i gyrraedd.

Tra yn amlwg yn siomedig bod rhai tenantiaid wedi profi anfodlonrwydd gyda CCG, ar y cyfan mae gwasanaeth i'n cwsmeriaid yn parhau i wella. Mae cryn dipyn o waith ar ôl i'w wneud, gan gynnwys yr angen i barhau i newid y ffordd rydym yn gweithio a sefydlu diwylliant galluogi, atebol gyda ffocws ar y cwsmer. Bydd hyn, ynghyd â parhau'r ffocws ar raglen buddsoddi SATC er mwyn cynnal yr allbynnau i'r lefelau sydd ei angen, yn flaenoriaethau i CCG yn ystod 2012/13.